

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 3ydd Mawrth 2020

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cyngorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.Hughes, D.L.Jones, K.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen, B.Owen, J.W.Parry, K.Richards, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

1. Ymddiheuriadau

Y Cyngorwyr W.R.Owen, S.Sage

2. Cyhoeddiadau'r Maer

1.03.2020 Gwledd o Adloniant CFFl Cymru (Galeri)

3. Datgan Buddiant Personol

Eitem 5 – Cofnodion - ii. Panel Cyllid – 11eg o Chwefror 2020 - y Cyngorydd E.R.Hughes

Eitem 5 – Cofnodion - ii. Panel Cyllid – 11eg o Chwefror 2020 - y Cyngorydd D.L.Jones

Eitem 5 – Cofnodion - ii. Panel Cyllid – 11eg o Chwefror 2020 - y Cyngorydd C.Williams

Eitem 18 – Gwasanaeth Fasgiwlaidd yng Ngogledd Cymru – y Cyngorydd M.Sarnacki

4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)

Casgliad o Arteffactau Archaeolegol

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn llythyr gan Amgueddfa Cymru yn gofyn am ganiatâd i barhau i fenthyg casgliad o arteffactau o Oes y Cerrig ac Oes yr Efydd o wahanol safleoedd yng Nghymru (pris o £2,500) sydd yn eiddo i'r Cyngor Tref. Cais yr Amgueddfa oedd i barhau i fenthyg am dair blynedd arall.

Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol gwybod union leoliad yr Arddangosfa ac hefyd y byddai'n dda cael llun o'r creiriau.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu gydag Amgueddfa Cymru i gadarnhau y byddai'n iawn iddynt barhau i fenthyg y casgliad o arteffactau am dair blynedd arall (unfrydol).

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 4ydd o Chwefror 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

ii. Panel Cyllid – 11eg o Chwefror 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

iii. Is-bwyllgor Adloniant – 18fed o Chwefror 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

6. Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn a'u talu (unfrydol).

7. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol) ond nodi y dylid:

- (1) Sicrhau fod y sawl sy'n derbyn arian gan y Cyngor yn datgan sut maent wedi gwario'r arian.**
- (2) Bod y Clerc yn dilyn i fyny yr incwm dyledus o ran y Parciau Solar.**

8. Maerolaeth 2020 – 2021

I dderbyn ymateb ymweliad y cynigydd a'r eilydd â'r Maer Etholedig, y Cynghorydd Maria Sarnacki. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Ann Hopcyn bod noson llwyddiannus wedi cymryd lle, a'i bod yn falch o nodi bod y Cynghorydd Maria Sarnacki yn derbyn y swydd.

Penderfynwyd llongyfarch y Cynghorydd Maria Sarnacki (unfrydol).

9. Maerolaeth 2020– 2021

I enwebu Dirprwy Faer Etholedig am y flwyddyn 2019 – 2020.

Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd Cai Larsen i fod yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn 2020 – 2021 (unfrydol).

10. Adeilad yr Institiwt

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad am y sefyllfa o ran y gwariant ar Adeilad yr Institiwt.

Nodwyd:

- (1) Bod angen gwariant sylweddol ar Adeilad yr Institiwt dros y blynyddoedd nesaf (tu mewn a thu allan) a bod angen rhaglen waith er mwyn cyflawni hyn.
- (2) Bod y Cyngor wedi clustnodi £25,000 ar gyfer atgyweirio / ail-adeiladu'r adeilad yn Amcangyfrifon 2020/21. Roedd hyn yn cymharu gyda £10,000 yn Amcangyfrifon 2019/20.
- (3) Bydd angen clustnodi arian fel gwariant dynodedig "designated funds" yn y blynyddoedd dilynol hefyd ar gyfer y gwariant ar gyfer yr adeilad.

Nodwyd ymhellach bod y gwariant sydd ar y gweill yn cynnwys:

- (1) Darparu cynlluniau llawr cyfredol - cost o £750.00 + TAW.
- (2) Mesur lloriau yr adeilad sef yr is-lawr, llawr gwaelod, llawr cyntaf a'r ail lawr – cost o £900 + TAW.
- (3) Trefnu archwiliad tamprwydd a cyflwr coed.
- (4) Cynnal archwiliad trydanegol - cost o £1,100 a TAW.
- (5) Cael archwiliad larwm tân, a gwneud asesiad risg tân – hwn yw'r brif flaenoriaeth, ac roedd trafodaethau wedi cychwyn. Roedd asesiad risg tân yn costio £320.
- (6) Cynnal archwiliad strwythyrol.
- (7) Trefnu cael archwiliad 'drone' ar gyflwr y tô – cost o £300 a TAW.
- (8) Trefnu Asesiad Risg Legionella - £395.
- (9) Trefnu cael costau am wasanaeth gwahanol arbenigwyr a fydd yn cael eu cyflogi yn uniongyrchol gan y Cyngor Tref – cost o £250.00 + TAW.
- (10) Adroddiad gweledol rhagarweiniol ar gyflwr allanol yr adeilad yn unig yn £750 + TAW.

Yn ychwanegol i hyn roedd gwariant sylweddol i'w wneud yn siop Galwch Acw, sef tenantiaid 8 – 10 Stryd Bangor. Gwelir isod gofnod y Panel Cyllid yn ei gyfarfod ar yr 22ain o Hydref a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod fis Tachwedd:

"Nododd y Clerc:

- (1) Bod gwaith angenrheidiol angen cael ei wneud ar adeilad Galwch Acw (tenantiaid 8 – 10 Stryd Bangor), a bod y cyfrifoldeb o ran ariannu yn disgyn ar y Cyngor Tref fel y landlord.
- (2) Bod y gwaith yn ymwneud â chael dŵr poeth i'r sinc, lleihau'r risg o Legionella drwy wneud gwaith ar y peipiau yn y selar, ac addasu'r toiled i'w wneud yn fwy addas ar gyfer yr anabl.
- (3) Gan fod y rhain yn ddatblygiadau diweddar a ddaeth i sylw'r Clerc yn ystod y dydd, nid oedd yn gallu rhoi unrhyw amcangyfrif o'r costau.

Penderfynwyd datgan y dylai'r Cyngor Tref, fel landlord, ariannu pa bynnag waith oedd yn angenrheidiol i'w gyflawni."

O ran y gwariant ar y toiledau, erbyn hyn roedd y Clerc wedi cael yr wybodaeth, er ei bod braidd yn fuan yn y broses i drafod dyfynbrisiau efo 'Byw Bywyd', mai amcangyfrif y gwariant oedd £10,000 (hyn yn cynnwys y ffioedd syrfêwr ac ati). Fodd bynnag amcangyfrif yw'r rhif, a gall fod yn uwch neu'n is na hyn. Roedd y pris yn hollol ddibynnol ar pa mor gystadleuol ydi'r tendrau.

Roedd y Clerc wedi derbyn cynlluniau ar gyfer hyn gan Galwch Acw, ac estynnodd wahoddiad i'r aelodau ddod i weld y cynlluniau ganddo ef.

Roedd y Clerc yn teimlo y gallasai'r Cyngor Tref ofyn am gyfraniad gan Cyngor Gwynedd tuag at y costau, gan fod Cyngor Gwynedd yn gwybod am gyflwr y toiledau pan fu iddyn nhw symud i mewn fel tenant.

Gan fod y costau'n uchel, mae'n debygol y byddai gwariant ar gyfer rhai elfennau o Adeilad yr Institiwt yn gorfod cael eu symud i 2021/22.

Penderfynwyd (unfrydol):

- (1) Nodi'r gwariant uchod i'w roi mewn cynllun gwariant ar gyfer Adeilad yr Institiwt ar gyfer 2020/21.**
- (2) Gofyn am gyfraniad gan Gyngor Gwynedd tuag at addasiadau'r toiled yn Galwch Acw.**

11. Y Gyllideb

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Clerc yn rhoi diweddariad o ran y gyllideb.

Nodwyd bod y Pwyllgor Cyllid wedi penderfynu fel a ganlyn yn ei gyfarfod ar y 16eg o Ragfyr:

“Penderfynwyd:

- (1) Nodi'r Amcangyfrifon yn Atodiad B gan gydnabod y gellid eu diwygio eto a throsglwyddo mwy fyth o arian i'w wario fel “Designated Funds” o dan benawdau fel:

- Y Liffert yn Adeilad yr Institiwt
- Y Gofeb ar y Maes
- Trosglwyddo Cyfrifoldebau Gwynedd
- Adeilad yr Institiwt
- Llochesi bysus.

Byddai hyn yn cyflawni gwaith angenrheidiol fyddai angen ei wneud yn ogystal â lleihau cronfeydd.

- (2) Gwneud y diwygiadau canlynol i'r Amcangyfrifon 2020/21 yn Atodiad B:
 - O dan y pennawd Gweinyddu, codi'r swm o arian a ddynodwyd ar gyfer y wefan i £2,000, gan newid y pennawd i “Technoleg Gwybodaeth, yn cynnwys y Wefan”.
 - O dan y pennawd Adeilad yr Institiwt, codi'r swm o arian a ddynodwyd ar gyfer Atgyweirio / Ail Adeiladu i £25,000.
- (3) Gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau o ran lle mae'r Cyfrif Argyfwng yn cael ei wario.
- (4) Gofyn i'r Clerc ofyn am adroddiad gan Wyl Caernarfon o ran sut mae'r arian yn cael ei wario.

- (5) Gofyn i'r Clerc wirio beth yw'r gwahaniaeth i'r taliadau i Eglwys Noddfa a Chanolfan Noddfa.
- (6) Yn yr Amcangyfrifon (Atodiad B) creu pennawd "Cyfrifoldebau" a rhoi'r is-benawdau canlynol oddi tano: Gwasanaethau Newydd, Parc Coed Helen, Gwasanaeth Ieuencid.
- (7) Yn sgîl yr holl wybodaeth, peidio â chodi'r Praesept ar gyfer 2020/21.
- (8) Yn y cyfarfod o'r Cyngor, sydd i'w gynnal ar y 7fed o Ionawr, 2020, rhoi eitem yn cadarnhau'r incwm o ran parcio o flaen yr eitem ar y Praesept."

Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 7fed o Ionawr, 2020.

Nodwyd ymhellach bod yr Amcangyfrifon a drafodwyd yn y cyfarfodydd uchod i'w gweld yn Atodiad A, a bod yr Amcangyfrifon diwygiedig i'w gweld yn Atodiad B. Er nad yw'r rhain yn diwygio'r ffigyrau yn Atodiad A, mae'n ymgorffori'r newidiadau a benderfynwyd uchod (yn benodol pwyntiau (2) a (6).

Penderfynwyd bod y Cyngor yn derbyn yr Amcangyfrifon, gyda'r mân ddiwygiadau y cyfeirir atynt uchod (unfrydol).

12. Ymgynghoriad ar y Trefniadau Archwilio yn y Dyfodol ar gyfer Cynghorau Cymunedol yng Nghymru

Cyflwyno gwybodaeth am ymgynghoriad sy'n cynnig, o 2020-21 ymlaen, rhaglen archwilio tair blynedd, ac mai'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw'r 19eg o Fawrth.

Nodwyd bod y linc i'w weld isod:

https://www.audit.wales/sites/default/files/download_documents/Future_Audit_Arrangements_Community_Councils_consultation_Cym.pdf

Penderfynwyd gofyn i'r aelodau anfon unrhyw sylwadau i'r Clerc erbyn y 13eg o Fawrth fel ei fod yn gallu llunio ymateb (unfrydol).

13. Aelodaeth Un Llais Cymru 2020/21

Cyflwynwyd gohebiaeth gan Un Llais Cymru, yn cynnwys ffurflen i adnewyddu aelodaeth ar gyfer 2020/21.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc adnewyddu aelodaeth ar gyfer 2020/21 (unfrydol).

14. (a) Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2020

(b) Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol adroddiad atodol drafft - yr egwyddorion sy'n ymwneud ag ad-dalu costau gofal

Cyflwynwyd gohebiaeth o ran yr uchod, ynghyd â llythyr eglurhaol gan y Cadeirydd, Mr John Bader. Gofynnir am sylwadau erbyn y 9fed o Ebrill 2020.

Nodwyd bod y linciau ar gyfer y ddwy ddogfen i'w gweld isod:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/panel-annibynnol-cymru-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2020-2021_0.pdf

<file:///C:/Users/katherine/AppData/Local/Microsoft/Windows/INetCache/Content.Outlook/IBGP0SXJ/Panel%20Annibynnol%20Cymru%20ar%20Gydnabyddiaeth%20Ariannol%20-%20Adroddiad%20Atodol%20drafft%20-%20yr%20Egwyddorion%20yn%20ymwneud%20ag%20Ad-dalu%20Costau%20Gofal.pdf>

Penderfynwyd gofyn i'r aelodau anfon unrhyw sylwadau i'r Clerc fel ei fod yn gallu llunio ymateb (unfrydol).

15. Hen Fynwent Llanbeblig

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa.

Nodwyd bod cyfarfod diweddar wedi ei gynnal gyda cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, a bod angen ateb o ran lle mae arian y Cyngor Tref wedi ei wario yn y gorffennol.

Nodwyd ymhellach mai'r Eglwys yng Nghymru ddylai arwain ar yr holl waith oedd angen ei wneud ar y safle.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at yr Eglwys yng Nghymru i ofyn beth yw eu cynlluniau ar gyfer y safle a beth yw'r amserlen ar gyfer hyn (unfrydol).

16. Lleuoedd Lleol ar gyfer Natur

Cyflwynwyd gohebiaeth ar yr uchod, sef menter newydd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at greu, adfer a gwella cannoedd o gynefinoedd ledled y wlad.

Nodwyd:

- (1) Bod y broses ymgeisio ar agor i grwpiau a mudiadau cymunedol sy'n awyddus i helpu i gildroi dirywiad byd natur.
- (2) Bod detholiad o 'becynnau' wedi'u teilwra i wahanol grwpiau a sefydliadau. Gyda bob pecyn, mae'r gost wedi'i thalu ymlaen llaw, yn cynnwys planhigion brodorol, offer a deunyddiau eraill.
- (3) Bod y pecynnau yn perthyn i dri chategori, a bod un yn addas ar gyfer cynghorau tref a chymuned, sef naill ai Gardd Pili Pala, Gardd Ffrwythau neu Gardd Bywyd Gwyllt.
- (4) Bod angen gwneud cais erbyn y 6ed o Fawrth.

Nodwyd y gellid cyplysu hyn efo enillwyr y Gystadleuaeth Garddio.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc wneud cais ar gyfer Gardd Pili Pala ym Mharc y Dre (unfrydol).

17. Cylch Cyfeillgarwch y Trefi Caerog

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar y 27ain o Dachwedd, 2019.

Nodwyd bod angen ystyried a thrafod sut fyddai ysgolion yn cael eu cynnwys yng ngweithgareddau'r Grŵp.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

18. Gwasanaeth Fasgiwlaidd yng Ngogledd Cymru

Cyflwynwyd llythyr gan Vaughan Gething AC ynglŷn â'r uchod.

Nodwyd bod rhai o'r Cynghorwyr wedi bod mewn cyfarfod diweddar ynglŷn a'r newidiadau i'r Gwasanaeth Fasgiwlaidd yng Ngogledd Cymru, a bod rhai o'r ffeithiau a'r diffyg atebolrwydd ddaeth allan o'r cyfarfod yn frawychus. Roedd angen i'r cyhoedd wybod y ffeithiau ac, yn ogystal, gofynnwyd i'r mater gael ei drafod ym Mhwyllgor Craffu perthnasol Cyngor Gwynedd.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Vaughan Gething AC yn mynegi pryder, a datgan y dylai'r Uned Fasgiwlar gael ei ail-sefydlu yn Ysbyty Gwynedd yn hytrach nag yn Ysbyty Glan Clwyd (unfrydol).

Gadawodd y Cynghorydd J.W.Parry y cyfarfod am 7.00 p.m.

19. Gohebiaeth Amrywiol

Cyflwyno, er gwybodaeth, ohebiaeth o ran y canlynol:

- Spring Clean Cymru – 20fed Mawrth – 13eg Ebrill
- Teenage Cancer Trust Cymru
- Ride Cymru & Manx Event

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

20. Gwasanaeth leuenctid – Cyfarfod gyda Chynghorau Tref / Cymuned eraill sy'n rhoi arian i'r Gwasanaeth

Cyflwynwyd cais gan y Clerc i Aelod / Aelodau i fynychu cyfarfod ynglŷn â'r Gwasanaeth leuenctid gydag ef.

Penderfynwyd gwahodd y Cynghorwyr E.R.Hughes, D.L.Jones a C.Williams i unrhyw gyfarfod y byddai'r Clerc yn ei fynychu (unfrydol).

21. Cwestiynau

(1) Y Gofeb oedd yng Nghapel Ebenezer

Nododd y Cynghorydd K.Jones fod y Gofeb oedd yng Nghapel Ebenezer bellach wedi cyrraedd Adeilad yr Institiwt, a bod angen meddwl am le addas o fewn yr adeilad i'w arddangos. Nododd ymhellach ei fod am wneud gwaith ymchwil o ran enwau'r milwyr sydd ar y Gofeb.

(2) Diwrnod VE

Gofynnodd y Cynghorydd E.R.Hughes beth oedd cynlluniau'r Cyngor o ran Dyddiad VE ym mis Mai.

(3) Cwrs CSAS

Gofynnodd y Cynghorydd D.L.Jones os oedd modd i Gynghorwyr fynd ar Hyfforddiant CSAS.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.05 p.m.

Arwyddwyd

Dyddiad